| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **1. Dan y Wenallt: Clymau Tafod** |
| Disgrifiad: | Rhoi trosolwg bras o 'Dan y Wenallt' ac ymgyfarwyddo â'r testun.<br>Deall beth yw cyflythreniad. |
| Blynyddoedd: | 3-6 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Datblgu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br>*Siarad:<br>BL3:<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br>Bl5:<br>• siarad yn eglur<br>Bl6:<br>• siarad yn eglur<br><br>*Gwrando:<br>Bl3:<br>• gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol.<br>Bl4:<br>• gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bywntiau<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud.<br>Bl5:<br>• gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.<br>Bl6:<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.<br><br>*Cydweithio a thrafod:<br>Bl3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.<br>Bl4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan.<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb.<br>Bl5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda.<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp.<br>Bl6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas: | Testun agoriadol Dan y Wenallt<br>O "Yn y dechrau'n deg" ... hyd at "y pentre pygddu'n cysgu'n drwm." |
| Offer angenrheidiol: | Cyfrifiadur / tablet gyda mynediad i'r we er mwyn chwarae darn o 'Dan y Wenallt' i'r dosbarth.<br>PowerPoint - UMW_Activity_TongueTwister_CYM<br><br>Setiau o gardiau gydag enghreifftiau o glymau tafod arnynt (un cwlwm dafod ar bob carden) |
| Dull: | Dangoswch y llyfr i'r dysgwyr<br><br>Rhowch rywfaint o wybodaeth gefndirol iddynt:<br>- ysgrifennwyd y ddrama gan Dylan Thomas, un o awduron enwocaf Cymru<br>- darlledwyd hi fel drama radio ar y BBC ym 1954 (wedi marwolaeth Dylan Thomas)<br>- mae'n disgrifio 24 awr mewn pentref yng Nghymru<br>- cyfeiriodd Dylan Thomas ati fel cerdd ddramatig .<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar ddechrau 'Dan y Wenallt' (os nad oedd modd i chi wrando arno, gallwch ddarllen y darn iddynt)<br>Dywedwch wrthynt am beidio â phoeni os nad ydynt yn deall pob gair.<br><br>Trafodwch yr agoriad gyda'r dysgwyr.<br>Ydych chi'n meddwl eu bod yn swnio fel cerdd neu stori? Trafodwch.<br>Pryd rydych chi'n meddwl mae 'Dan y Wenallt' wedi ei leoli - heddiw, yn y gorffennol, yn y dyfodol?<br>Am beth mae'r bechgyn yn breuddwydio?<br><br>Esboniwch fod sain geiriau'n bwysig iawn i Dylan Thomas.<br>Gallwch gael y dysgwyr i geisio dweud<br>"bechgynnach yn breuddwydio'n gellweirus"<br><br>Esboniwch ein bod yn galw pethau sy'n anodd eu dweud yn 'gwlwm tafod'.<br>Mae'r rhain yn aml yn dechrau gyda'r un llythyren a'r enw ar hyn yw 'cyflythreniad' neu 'gyflythrennu'.<br><br>Dosbarthwch y cardiau er mwyn i'r dysgwyr gael roi cynnig ar wahanol glymau tafod.<br>e.e.<br>Oer yw eira ar Eryri.<br>Llongyfarchiadau, llanciau Llanelli.<br>Barf gafr, barf gafr.<br>Rowliodd Lowri lawr y lôn.<br>Wel, wedodd Wil wrth y wal, ond wedodd y wal ddim byd wrth Wil.<br>Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch.<br><br>Wedi rhoi cynnig arnynt, mae'n rhaid i bob grŵp roi'r clymau yn eu trefn o'r hawsaf i'r anoddaf eu dweud.<br><br>Clowch y sesiwn drwy adolygu beth yw cyflythreniad. |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gallai'r dysgwyr fynd ati i greu clymau tafod eu hunain.<br>Gellid cyfnewid clymau tafod y grwpiau i weld a ydynt yn gallu dweud clymau tafod ei gilydd. |
| Dolenni perthnasol: | |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gellid trafod ystyr agoriad Dan y Wenallt gyda'r dysgwyr mwy abl a thalentog.<br>Gellid hefyd gwneud gwaith geiriadur i ddarganfod ystyr y geiriau mwy anghyfarwydd. |

| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **2. Dan y Wenallt: Atgofion** |
| Disgrifiad: | Defnyddio Dan y Wenallt fel man cychwyn i drafodaeth ar atgofion. Chwarae Chinese Whispers a dysgu pwysigrwydd gwrando'n ofalus. |
| Blynyddoedd: | 3-6 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | *Siarad:<br>BL3:<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br><br>BI5:<br>• siarad yn eglur<br><br>BI6:<br>• siarad yn eglur<br><br>*Gwrando:<br>BI3:<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol.<br>BI4:<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud.<br>BI5:<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.<br>BI6:<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.<br><br>*Cydweithio a thrafod:<br>BI3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.<br>BI4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan.<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb.<br>BI5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda.<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp.<br>BI6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. |
| Testun Dylan Thomas: | 'Dan y Wenallt'<br>'Nadolig Plentyn yng Nghymru' |

| | |
|---|---|
| Offer angenrheidiol: | Copïau o'r llyfrau Nadolig Plentyn yng Nghymru |
| Dull: | Trafodwch yn fyr gyda'r dosbarth i weld beth maent yn ei gofio am Dylan Thomas a 'Dan y Wenallt'.<br><br>Esboniwch fod Dylan Thomas wedi defnyddio llawer o atgofion o'i blentyndod wrth ysgrifennu 'Dan y Wenallt'.<br><br>Mae pobl yn Nhalacharn a Chei Newydd yn credu mai eu pentref nhw oedd yr ysbrydoliaeth i 'Dan y Wenallt'.<br><br>Esboniwch fod pobl yn aml ddim yn cofio'n union sut roedd pethau wrth edrych 'nôl ar eu plentyndod a bod atgofion yn gallu newid dros amser.<br><br>Cyfeiriwch at 'Nadolig Plentyn yng Nghymru' - un o weithiau eraill Dylan Thomas lle mae'n tynnu ar ei atgofion.<br>*"Yn y blynyddoedd hynny a drodd o gwmpas cornel y dre glan môr, roedd un Nadolig mor debyg i'r llall; y blynyddoedd hynny sydd erbyn hyn y tu hwnt i sŵn, oni bai am siarad pell y lleisiau a glywaf weithiau cyn cysgu, fel na allaf yn fy myw gofio a fu hi'n bwrw eira am chwe niwrnod a chwe noson pan oeddwn i'n ddeuddeg ynteu a fu hi'n bwrw eira am ddeuddeg diwrnod a deuddeg noson pan oeddwn i'n chwech."*<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr beth yw eu hatgofion cynharaf. Caniatewch amser ar gyfer trafodaeth. Ydyn nhw'n cofio digwyddiadau'n glir?<br><br>Esboniwch fod atgofion yn gallu bod yn bwysig i ni, yn enwedig atgofion am bobl neu anifeiliaid oedd yn annwyl i ni, sydd wedi ein gadael.<br><br>Chwaraewch 'Chinese Whispers' i ddangos sut gall bethau newid dros amser. Rhannwch y dosbarth yn nifer o grwpiau gydag o leiaf 6 pherson ym mhob grŵp os yw'n bosibl.<br>Rhowch un frawddeg i aelod o bob grŵp i'w dweud. Esboniwch fod rhaid ei sibrwd wrth y person nesaf, a bod yntau/hithau'n sibrwd wrth y person nesaf eto. Mae'r person olaf yn y grŵp yn ysgrifennu'r frawddeg mae wedi ei chlywed ar y bwrdd gwyn. Gall y grwpiau wedyn gymharu'r brawddegau i weld pa mor agos oeddent at y brawddegau gwreiddiol.<br>Gellir defnyddio unrhyw frawddeg neu ymadrodd.<br><br>Dyma rai y gellid eu defnyddio o 'Dan y Wenallt' -<br>• Yn y dechrau'n deg<br>• Ust mae'r plantos yn cysgu<br>• Mae hi'n nos o Wanwyn mewn pentref bach<br><br>Clowch y sesiwn gan drafod beth mae'r plant wedi ei ddysgu e.e. pwysigrwydd gwrando yn astud. Gellid defnyddio'r sesiwn gloi at ddibenion ABCh i esbonio i ddysgwyr na ddylent gredu sïon gan fod stori yn gallu newid wrth fynd o berson i berson. |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau ymestynnol: | Wedi i'r grwpiau ddeall 'Chinese Whispers' gellir ei chwarae fel gêm gyda phwyntiau'n cael eu rhoi i'r grŵp cyntaf sydd yn ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y bwrdd gwyn. |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Ar gyfer Blwyddyn 3 a 4 gall fod yn ddigon i ddefnyddio gair neu ddau i'w sibrwd yn hytrach na brawddeg lawn. |

| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **3. Dan y Wenallt : Cymeriadau** |
| Disgrifiad: | Y dysgwyr yn creu eu cymeriadau eu hunain gan ddefnyddio cymeriadau 'Dan y Wenallt' a llyfrau Roald Dahl fel symbyliad. Defnyddio ansoddeiriau ac adferfau. |
| Blynyddoedd: | 3-6 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb.<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau addas.<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd.<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben.<br><br>*Strwythur a threfn:<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu.<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythuron penodol wrth ysgrifennu.<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu.<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol.<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**<br>*Iaith:<br>Bl3:/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br><br>* Cystrawen Sillafu Atalnodi Llawysgrifen<br>BL3:<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>Bl4:<br>• defnyddio ansoddeiriaru ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir |
| Testun Dylan Thomas: | 'Dan y Wenallt' |

| | |
|---|---|
| Offer angenrheidiol: | Amrywiaeth o luniau o bobl wedi eu torri o gylchgronau.<br><br>PowerPoint - KS2_UMW_Characters_UMW |
| Dull: | Adolygwch pwy oedd Dylan Thomas a 'Dan y Wenallt'.<br>Trafodwch rai o gymeriadau 'Dan y Wenallt' a'r enwau a roddwyd iddynt.<br><br>Organ Morgan - wrth ei fodd gydag organau<br>Dai Di-ddim - pysgotwr diog<br>Syr Wili Watsh - cymeriad ecsentrig sydd ag obsesiwn ag amser<br><br>Cyfeiriwch at gymeriadau Roald Dahl gan sôn sut mae eu henwau yn adlewyrchu eu cymeriadau.<br>e.e. Wili Wonka, Wmpalwmpas, Miss Trunchbull (Matilda)<br><br>Dosbarthwch y lluniau i'r grwpiau gan adael i bob dysgwr ddewis cymeriad. Gall y dysgwyr holi cwestiynau i'w gilydd am y cymeriadau.<br><br>Wedi'r gweithgaredd hwn, gall y dysgwyr ysgrifennu ansoddeiriau sy'n disgrifio eu cymeriad gan nodi:<br>- sut olwg sydd arno/arni<br>- ble mae'n byw<br>- beth mae'n ei wneud ( gan ddefnyddio adferfau).<br><br>Gan ddefnyddio'r nodiadau yma, gall y dysgwyr ysgrifennu disgrifiad o'u cymeriad.<br><br>Gellir cloi'r sesiwn gan adolygu yr elfennau gellir ei cynnwys mewn disgrifiad o gymeriad a gallai'r dysgwyr ddarllen eu disgrifiadau i'r dosbarth cyfan. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gellid chwarae gêm lle mae'r dosbarth yn gweld ystod o luniau. Yna, mae dysgwr yn darllen ei ddisgrifiad o gymeriad ac mae'n rhaid i'r dysgwyr eraill ddyfalu pa lun sy'n cael ei ddisgrifio. |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Byddai o gymorth i ddysgwyr gwaelod CA2 i gael banc o eiriau y gellid dewis ohonynt wrth ddisgrifio eu cymeriad. |

| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **4. Dan y Wenallt: Hoff le** |
| Disgrifiad: | Gweithgaredd cadair goch (*hot-seating*) i'r dysgwyr ddefnyddio eu synhwyrau wrth ddisgrifio eu hoff le. |
| Blynyddoedd: | 3-6 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Datblgu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br>*Siarad:<br>BL3:<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br><br>BI5:<br>• siarad yn eglur<br><br>BI6:<br>• siarad yn eglur<br><br>*Gwrando:<br>BI3:<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol.<br>BI4:<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud.<br>BI5:<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.<br>BI6:<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.<br><br>*Cydweithio a thrafod:<br>BI3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.<br>BI4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan.<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb.<br>BI5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda.<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp.<br>BI6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas: | 'Dan y Wenallt' |

| | |
|---|---|
| Offer angenrheidiol: | Copi o 'Map of Llareggub' neu gyfrifiadur a bwrdd gwyn i ddangos y map ar y we (Gweler Dolenni perthnasol islaw) |
| Dull: | Adolygwch y gwaith ar Dylan Thomas a 'Dan y Wenallt'.<br>Dangoswch y map o Llareggub. Trafodwch yr elfennau sy'n cael eu dangos ar y map.<br><br>Esboniwch fod Dylan Thomas yn disgrifio'r pentref mewn ffordd farddonol iawn ac mae'n amlwg yn lle y mae'n hoff ohono.<br><br>Siaradwch am un o'ch hoff leoedd chi. Pam rydych chi'n hoff ohono? Pryd rydych chi'n mynd yno? Beth sy'n arbennig amdano?<br>Defnyddiwch eich synhwyrau wrth ei ddisgrifio.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu hoff le. Gallai fod yn rhywle y maent yn ei gofio o'r adeg pan oeddent yn iau; rhywle lle'r aethant ar eu gwyliau; lle tawel yn eu cartref; neu rywle yn yr ysgol.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr gau eu llygaid, meddwl am hoff le a defnyddio eu synhwyrau wrth feddwl am:<br>- Sut olwg sydd ar y lle?<br>- Sut synau maen nhw'n eu clywed yno?<br>- Oes arogl arbennig yn gysylltiedig â'r lle?<br>- Sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw yno?<br><br>Rhowch ychydig amser meddwl i'r dysgwyr yma.<br><br>Yna, dewiswch ddysgwr i eistedd yn y 'gadair goch' o flaen y dosbarth. Rhaid i'r dysgwyr eraill ofyn cwestiynau er mwyn dyfalu ble mae'r lle, e.e.<br>Ydy'r lle yma o dan do? Ydy'r lle yng Nghymru? Ydy'r lle'n gynnes? Ydy'r lle'n swnllyd?<br><br>Gellir cloi'r sesiwn gan ofyn i'r dysgwyr i restru elfennau sy'n bwysig i'w cynnwys wrth ddisgrifio lle. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gall dysgwyr greu map o'u hoff le. |
| Dolenni perthnasol: | Map o Llarregub<br>http://digidol.llgc.org.uk/METS/DTH00001/frames?div=1&subdiv=0&locale=en&mode=reference |

| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | **5. Dan y Wenallt: Breuddwydion** |
| Disgrifiad: | Bydd y dysgwyr yn dysgu am freuddwydion cymeriadau 'Dan y Wenallt' ac yn creu ynys ddychmygol eu hunain gan ddefnyddio ansoddeiriau i'w disgrifio. |
| Blynyddoedd: | 3-6 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>BI3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb.<br>BI4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau addas.<br>BI5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd.<br>BI6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben.<br><br>*Strwythur a threfn:<br>BI3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu.<br>BI4:<br>• defnyddio strwythuron penodol wrth ysgrifennu.<br>BI5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu.<br>BI6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol.<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**<br>*Iaith:<br>BI3:/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol<br><br>* Cystrawen Sillafu Atalnodi Llawysgrifen<br>BL3:<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>BI4:<br>• defnyddio ansoddeiriaru ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir |
| Testun Dylan Thomas: | 'Dan y Wenallt' |

| | |
|---|---|
| Offer angenrheidiol: | Copi o 'Dan y Wenallt'<br>Llun o freuddwyd Capten Cat a Dai Diddim yn gorffwys ar ei rwyfau |
| Dull: | Gellir defnyddio'r wers hon wedi'r wers 'Hoff le', lle byddant wedi gwneud gwaith disgrifiadol.<br><br>Adolygwch yn gyflym y gwaith sydd wedi ei wneud ar Dylan Thomas a 'Dan y Wenallt'.<br><br>Esboniwch y byddwn yn gweld breuddwydion y cymeriadau yn 'Dan y Wenallt'. Yn y rhan agoriadol, mae'n dweud bod y merched yn breuddwydio am briodi a'r bechgyn yn breuddwydio am gowbois a môr-ladron.<br>(Bydd angen tipyn o esbonio gan yr athro yma er mwyn esbonio'r testun sydd yn heriol iawn.)<br><br>Gellir cael trafodaeth ar stereoteipio - ai defnyddio stereoteipiau yw dweud bod merched yn breuddwydio am briodasau tra mae bechgyn yn breuddwydio am fôr-ladron?<br><br>Gellir mynd ymlaen i sôn am freuddwydion eraill sydd yn y ddrama, e.e.<br>Mae Capten Cat yn gweld cyrff y morwyr marw sydd yn dod 'nôl i siarad ag ef.<br>Mae Organ Morgan yn gweld trigolion y pentref yn canu.<br>Mae Wil Llath yn tywallt llaeth i'r afon yn ei freuddwyd ef.<br>Mae Dai Diddim mor ddiog, mae'n breuddwydio am ddim.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr am beth maen nhw'n breuddwydio. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer trafodaeth.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr gau eu llygaid a dychmygu eu bod yn breuddwydio am ynys bellennig gan holi:<br><br>Beth allwch chi ei weld ar yr ynys hon? Ydy hi'n fynyddig neu'n wastad? Yn wyrdd neu'n dywodlyd?<br>Beth allwch chi ei glywed ar yr ynys hon?<br>Anadlwch yn ddwfn. Beth allwch chi ei arogli ar yr ynys hon?<br>Sut rydych chi'n teimlo pan ydych chi ar yr ynys hon? Wedi cyffroi, wedi ymlacio ...?<br><br>Gall y dysgwyr dynnu amlinelliad o'u hynys fel y'i gwelir o'r awyr.<br>Yna gallant lenwi'r ynys gydag ansoddeiriau neu ymadroddion i'w disgrifio.<br><br>Yna, gallant dynnu llun o olygfa o'r ynys.<br><br>Gellir cloi'r sesiwn drwy adolygu beth yw ansoddeiriau. Yna gall y dysgwyr ddangos eu lluniau a disgrifio'u ynys i'r dosbarth cyfan. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gan ddefnyddio'r ansoddeiriau, gallai'r dysgwyr fynd ati i ysgrifennu'n ddisgrifiadol am yr ynys.<br>Gellid creu llyfr ynysoedd ein breuddwydion a fyddai'n cynnwys disgrifiadau a lluniau'r dysgwyr. |

| | |
|---|---|
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Bydd y gweithgaredd hwn wedi ei wahaniaethu yn ôl canlyniad, neu’r hyn y mae'r dysgwyr yn ei greu. |